# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Rhaglen Gyfalaf 2025/26 –<br>Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026) |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 19 Mai 2026 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026) o'r rhaglen gyfalaf.
- Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 6 Mawrth 2025 ac a addaswyd ar 11 Tachwedd 2025 a'r 20 Ionawr 2026 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
  - cynnydd o £35,000 mewn defnydd o fenthyca
  - cynnydd o £14,058,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
  - cynnydd o £485,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
  - cynnydd o £1,313,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
  - lleihad o £2,493,000 mewn defnydd o'r gronfa cyfalaf
  - lleihad o £667,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2025/26 – 2027/28.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn diwedd blwyddyn 2025/26. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhannau 3.2.2 a 3.2.3 o'r adroddiad (Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad) fel a ganlyn:

- Rhan 3.2.1: Prif Gasgliadau
- Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £164.866m am y 3 blynedd 2025/26 – 2027/28.
- Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £12.731m ers yr adolygiad diwethaf.
- Rhan 3.2.4: Manylder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.
- Rhan 3.2.5: Dadansoddiad dangosyddion darbodus cyfalaf.

Mae gan y Cabinet rôl i gymeradwyo'n ffurfiol yr ymgorfforiad o ariannu trwy grant i mewn i'r gyllideb gyfalaf, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**3.2.1 Prif Gasgliadau**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

- Buddsoddwyd £83.8m yn 2025/26 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £52.7m (63%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae £21.9m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2025/26 i 2026/27 a 2027/28, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

### 3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2025/26 i 2027/28

Gweler isod y rhaglen gyfalaf derfynol am 2025/26 ar ddiwedd Mawrth 2026, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynyddoedd dilynol:

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | Cynnydd/(Lleihad) ers yr Adolygiad Diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2025/26 £000 | 2026/27 £000 | 2027/28 £000 | Cyfanswm £000 | £000 |
| Addysg | 13,778 | 15,359 | 3,451 | 32,588 | **4,529** |
| Amgylchedd | 7,428 | 5,222 | 478 | 13,128 | **33** |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - | - | - | **-** |
| Cyllid | 734 | 696 | 1,249 | 2,679 | **(502)** |
| Economi a Chymuned | 20,944 | 14,359 | 2,396 | 37,699 | **(101)** |
| Tai ac Eiddo | 22,836 | 9,014 | 4,103 | 35,953 | **4,926** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 3,742 | 4,725 | - | 8,467 | **2,998** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,945 | 1,013 | 700 | 4,658 | **317** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 11,365 | 11,629 | 5,700 | 28,694 | **531** |
| Corfforaethol | - | 500 | 500 | 1,000 | **-** |
| **CYFANSWM** | **83,772** | **62,517** | **18,577** | **164,866** | **12,731** |

### 3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £12.731m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu terfynol am 2025/26 ar ddiwedd Mawrth 2026, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynyddoedd dilynol:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | Addasiad Technegol | Cynnydd/(Lleihad) ers yr Adolygiad Diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025/26 £000 | 2026/27 £000 | 2027/28 £000 | Cyfanswm £000 | £000 | £000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,070 | 4,070 | 4,070 | 12,210 | 0 | **-** |
| Benthyca Arall | 8,504 | 6,221 | - | 14,725 | 0 | **35** |
| Grantiau a Chyfraniadau | 60,115 | 22,346 | 4,871 | 87,332 | 3,441 | **14,058** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 487 | 158 | - | 645 | 0 | **485** |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,581 | 20 | - | 2,601 | 0 | **1,313** |
| Cronfa Cyfalaf | - | 21,439 | 5,279 | 26,718 | 9,189 | **(2,493)** |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 8,015 | 8,263 | 4,357 | 20,635 | (12,630) | **(667)** |
| **CYFANSWM** | **83,772** | **62,517** | **18,577** | **164,866** | **0** | **12,731** |

### 3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf, ddiwedd Tachwedd, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £14.728m a rhestrir y rhai mwyaf isod. Mae nifer o addasiadau ychwanegol gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £14.058m (gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion) :

- £3.206m Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru
- £2.434m Grant ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion 2025/26
- £2.292m Grant Cyffredinol Cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru
- £1.836m Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Cymunedol Anabledd Dysgu, Canolfan Dolfeurig

- £1.529m  Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau
- £0.763m  Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun i Ddatgarboneiddio Gwres o fewn y Cyngor
- £0.652m  Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y system gyfrifiadurol Mosaic (CCSCP - Cysylltu Gofal - Rhaglen Gofal Cymdeithasol)

**3.2.5 Dangosyddion Darbodus Cyfalaf**

Mae Côd Darbodus CIPFA yn nodi'r angen i adrodd ar y Dangosyddion Darbodus ( gweler Atodiad 3 am fwy o fanylion).

**3.3 Camau nesaf**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**4.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad 2 - Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb

Atodiad 3 – Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2025/26

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

Cyllideb 2025/2026 : Cyllidebau Blynyddol

Strategaeth Cyfalaf 2025/26 : Cyngor Llawn 06/03/25: Eitem 10 - Strategaeth Gyfalaf 2025-26 yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyca.pdf

**ATODIAD 1**

**Manylion y Prif Newidiadau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf:

| | 2025/26<br>£'000 | 2026/27-<br>2027/28<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Benthyca Arall** | | |
| • Cerbydau yn y meysydd priffyrdd, gwastraff ac ailgylchu *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd).* | 36 | |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion 2025/26 *(Adran Addysg).* | 2,434 | |
| • Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau *(Adran Addysg).* | 809 | 720 |
| • Grantiau a Chyfraniadau gan nifer o asiantaethau tuag at gae hoci a chae 3G yn ysgolion de'r sir *(Adran Addysg).* | 235 | |
| • Cyfraniadau rhan 106 deddfwriaeth Cynllunio wedi ei ddefnyddio tuag at ysgolion *(Adran Addysg).* | 121 | |
| • Grant Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 79 | |
| • Grant Balchder Bro gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig *(Adran Economi a Chymuned).* | 50 | |
| • Addasiad Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig – telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | (52) | |
| • Addasiad i'r grant gan Lywodraeth Cymru i Leihau Ôl Troed Carbon *(Adran Economi a Chymuned).* | (51) | |
| • Addasiad grant gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad i'r Archifdy *(Adran Economi a Chymuned).* | (47) | |

| | |
|---|---|
| • Addasiad Grant Cyfalaf Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).* | (94) |
| • Grant Cronfa Tai â Gofal (HCF) ar gyfer cartrefi i blant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).* | 225 |
| • Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).* | 182 |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y system gyfrifiadurol Mosaic (CCSCP - Cysylltu Gofal - Rhaglen Gofal Cymdeithasol) *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 652 |
| • Grant Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 221 |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cartref Gofal Penrhos *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 289 |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Cymunedol Anabledd Dysgu, Canolfan Dolfeurig *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 1,836 |
| • Addasiadau i'r grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF); Gronfa Teithio Llesol (ATF); Gronfa Ffyrdd Cydnerth (RRF) a'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRiC) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | (207) |
| • Addasiad i grantiau a chyfraniadau gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC(WCVA)) a Partneriaethau Natur Lleol tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd)* | (105) |
| • Addasiad i grant Llywodraeth Cymru o'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVTF) ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan a phwyntiau solar *(Adran Amgylchedd).* | (30) |
| • Grant Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru tuag at gynlluniau Digartrefedd *(Adran Tai ac Eiddo).* | 506 |

| | | |
|---|---|---|
| • Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 3,206 | |
| • Cyfraniadau rhan 106 deddfwriaeth Cynllunio wedi ei ddefnyddio tuag at dai penodol *(Adran Tai ac Eiddo).* | 108 | |
| • Addasu Grant Cynllun Lesu Cymru gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | (58) | |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun i Ddatgarboneiddio Gwres o fewn y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo).* | 730 | 33 |
| • Grant Cyffredinol Cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru *(Corfforaethol).* | 2,292 | |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Cywiro cyfraniadau tuag at gerbydau trydanol gan ddigolledu cronfeydd adnewyddu adrannol *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd).* | 484 | |
| **Refeniw Adrannol a Chorfforaethol** | | |
| • Cyfraniadau ysgolion unigol tuag at amrywiol gynlluniau penodol *(Adran Addysg).* | 215 | |
| • Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau penodol *(Adran Economi a Chymuned).* | 166 | |
| • Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd).* | 193 | |
| • Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys cynlluniau digartrefedd *(Adran Tai ac Eiddo).* | 692 | |
| • Addasiadau cyfraniadau adrannau tuag at offer cyfrifiadurol ychwanegol *(Adran Cyllid).* | 50 | |
| **Cronfa Cyfalaf** | | |
| • Cywiro ariannu 24/25 prosiect ffonau VOIP - cronfa benodol i'w defnyddio *(Adran Cyllid).* | (201) | |
| • Addasu'r defnydd o'r Gronfa Cyfalaf oherwydd derbyn Grant Cyffredinol Cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru *(Corfforaethol).* | (2,292) | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Addasiad i’r cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Economi a Chymuned).* | (257) | |
| • Cywiro cyfraniadau o dderbyniadau cyfalaf tuag at gerbydau trydanol gan ddigolledu cronfeydd adnewyddu adrannol *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd).* | (484) | |
| • Cyfraniad/ addasiad tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys uwchraddio'r Amlosgydd yn Amlosgfa Bangor *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | 356 | |
| • Adnewyddu Cerbydau ac Offer o gronfeydd adrannol *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd).* | 329 | |
| • Addasu'r cyfraniad o'r Gronfa Bremiwm Treth y Cyngor tuag at y cynlluniau Strategaeth Tai *(Adran Tai ac Eiddo).* | (570) | |
| • Cyfraniadau tuag at gynlluniau hinsawdd a datgarboneiddio *(Adran Tai ac Eiddo).* | 297 | 4 |
| • Addasu ariannu y cynllun i gryfhau isadeiledd a chynlluniau eraill TG trwy refeniw dros nifer o flynyddoedd tra'n defnyddio'r un cronfeydd a glustnodwyd yn wreiddiol i ariannu'r cyfalaf *(Adran Cyllid).* | (552) | |
| • Cywiro ariannu 24/25 prosiect ffonau VOIP - cronfa benodol i'w defnyddio *(Adran Cyllid).* | 201 | |

----------------------------

**ATODIAD 2**

**Manylion Ail-broffilio'r Gyllideb**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | **2025/26**<br><br>**£'000** | **2026/27 - 2027/28**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (10,928) | 10,928 |
| Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol; Adfywio *(Adran Economi a Chymuned)* | (1,881) | 1,881 |
| Cronfa Ffyniant Bro *(Adran Economi a Chymuned)* | (6,078) | 6,078 |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin *(Adran Economi a Chymuned)* | (1,987) | 1,987 |
| Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig, Diwylliant a Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)* | (1,592) | 1,592 |
| Sefydliadau Plant *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)* | (1,013) | 1,013 |
| Darpariaeth Cyd-Ariannu Prosiectau Gofal *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (1,500) | 1,500 |
| Cynlluniau Sefydliadau Preswyl, Gofal Dydd ac eraill yn y maes Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (1,726) | 1,726 |
| Cynlluniau Ffyrdd a Bwrdeistrefol *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)* | (1,197) | 1,197 |
| Adnewyddu Cerbydau ac Offer (*Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd; Tai ac Eiddo)* | (3,172) | 3,172 |
| Cynlluniau Risgiau Arfordirol ac Atal Llifogydd *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)* | (1,880) | 1,880 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth, Gwelliannau Trefol a Chynlluniau Gwledig *(Adran Amgylchedd)* | (291) | 291 |
| Meysydd Parcio *(Adran Amgylchedd)* | (221) | 221 |
| Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)* | (48) | 48 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynlluniau Gwastraff ac Ailgylchu *(Adran Amgylchedd)* | (2,156) | 2,156 |
| Cynlluniau Strategaeth Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (164) | 164 |
| Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (1,151) | 1,151 |
| Cynlluniau Addasiadau i'r Anabl; Swyddfeydd; Mân-ddaliadau *(Adran Tai ac Eiddo)* | (105) | 105 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (3,175) | 3,175 |
| Cynlluniau Gwaredu Asbestos *(Adran Tai ac Eiddo)* | (164) | 164 |
| Adnewyddu Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth *(Adran Cyllid)* | 26 | (26) |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

**ATODIAD 3**

**Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2025/26 - Alldro**

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei wariant cyfalaf a benthyca gan gyfeirio at y dangosyddion dilynol.

Mae bellach yn ofyniad yn y Côd Darbodus CIPFA i adrodd ar rhain yn rheolaidd.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses cau cyfrifon i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

**Gwariant Cyfalaf**

Mae'r Cyngor yn ymgymryd ac yn cynllunio gwariant cyfalaf fel a grynhoir isod.

| | **Gwir 2024/25 £m** | **Gwir 2025/26 £m** | **Cyllideb 2026/27 £m** | **Cyllideb 2027/28 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol | 85.0 | 84.6 | 62.9 | 18.9 |
| Prydlesu Cronfa Gyffredinol | 5.3 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **90.3** | **84.6** | **62.9** | **18.9** |

Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2025/26 yn cynnwys (gweler yr adroddiadau adolygiad am fanylion ailbroffilio lle bo'n berthnasol) :

- Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £12.4m
- Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro - £11.0m
- Cynlluniau/Strategaeth Tai - £7.5m
- Cerbydau Adrannol - £6.9m
- Cartrefi/Canolfannau Oedolion - £4.5m
- Cynlluniau Eiddo - £3.9m

**Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronnus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

| | Gwir 31.3.2025 £m | Gwir 31.3.2026 £m | Amcan 31.3.2027 £m | Amcan 31.3.2028 £m |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol | 179.9 | 186.4 | 190.3 | 187.7 |

**Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn disgwyl y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r gofyn hyn yn y tymor canolig fel a ddangosir isod.

| | Gwir 31.3.2025 £m | Gwir 31.3.2026 £m | Amcan 31.3.2027 £m | Amcan 31.3.2028 £m |
|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau) | 100.1 | 79.0 | 73.6 | 71.6 |
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 179.9 | 186.4 | 190.3 | 187.7 |

**Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol**

Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn agosáu at y terfyn.

| | **Uchafswm Dyled 2025/26 £m** | **Dyled ar 31.03.2026 £m** | **Terfyn Awdurdodedig 2025/26 £m** | **Ffin Gweithredol 2025/26 £m** | **Wedi cydymffurfio?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 94.1 | 73.9 | | | |
| Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau | 6.0 | 5.1 | | | |
| **Cyfanswm Dyled** | **100.1** | **79.0** | 200 | 190 | Do |

Oherwydd mai offeryn rheolaeth at ddiben monitro o fewn y flwyddyn yw'r ffin gweithredol, nid yw'n arwyddocaol os eir yn uwch na'r ffin ar achlysur oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fethiant i gydymffurfio.

**Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net**

Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) yn gost ar refeniw. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

| | **Gwir 2024/25** | **Gwir 2025/26** | **Cyllideb 2026/27** | **Cyllideb 2027/28** |
|---|---|---|---|---|
| Costau Ariannu (£m) | 8.5 | 10.1 | 10.0 | 10.3 |
| Cyfran y Llif Refeniw Net (%) | 2.5% | 2.8% | 2.6% | 2.7% |

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r dangosyddion hyn (Meincnod Ymrwymiad, Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau, Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Tymor Hir) yn cael eu hadrodd ar wahân fel rhan o'r Adroddiad Rheolaeth Trysorlys am y cyfnod dan sylw.